

COFFIN, WALTER (1784 - 1867), arloesydd glofeydd

Enw: Walter Coffin
Dyddiad geni: 1784
Dyddiad marw: 1867
Rhiant: Walter Coffin
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arloesydd glofeydd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 1784, ail fab Walter Coffin, barcer, Penybont-ar-Ogwr. Tra'n chwilio am risgl yng Nghwm Rhondda, daeth i deimlo diddordeb mewn glo; yn 1806 prynodd fferm Dinas Rhondda, ac agor lefel lo arni yn 1807; gwnaeth ffordd dram i'w chysylltu â'r Gyfeillon (gweler **Griffiths, Richard**), ac felly â'r gamlas yn Nhrefforest. Yn 1810 cymerodd brydles i godi glo ar droedd eraill cyfagos, a suddodd byllau glo yno yn 1815 a 1832; gweithiai'r haenau 'Rhondda no. 1' a 'Rhondda no. 3.' Er ei fod yn gyfarwyddwr y Taff Vale Railway yn 1836 ni fynnai estyn y ffordd haearn i fyny Cwm Rhondda, am nad oedd ganddo fawr ffydd yn nyfodol y cwm - credai y byddai'r dramffordd a'r gamlas yn ddigon i gludo ei holl gynnyrch.

Bu'n aelod seneddol dros Gaerdydd o 1852 hyd 1857. Yn ôl **W. R. Williams**, *The parliamentary history of the principality of Wales*, bu farw 15 Chwefror 1867.

Yr oedd Coffin yn ŵr o opiniynau blaengar mewn diwinyddiaeth. Ei dad oedd unig ymddriedolwr yr Hen Dŷ Cwrdd ym Mhenybont pan gododd anghydfod yno, yn fuan ar ôl 1806; a llwyddodd Coffin felly i gael galw **John James** yn fugail ar y gynulleidfa - a droes felly'n Undodaidd. Yn y Dinas hefyd bu ei ddylanwad yn gyfle i Undodiaeth am ysbaid - yr oedd meddyg y gwaith, **Evan Davies**, yn gefnogwr i'r achos.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

O. Morgan, *History of Pontypridd and Rhondda Valleys* (1903), 184-93

Elizabeth Phillips, traethawd anghyhoedd gan E. D. Lewis ar Ddatblygiad Diwydiannol Cymoedd Rhondda (yn LI.G.C.)

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 199

Yr Ymfynydd, 1931, 121

Caroline E. Williams (gol.), *A Welsh family from the beginning of the 18th century*(London 1885)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Walter Coffin**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q7964582**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government